ANTUR

Newyddion ar gyfer sector awyr agored Gogledd Orllewin Cymru

rhifyn 02
Ebrill 2009

Snowdonia-Active
Eryri-Bywiol

Ailgymodi Cadwraeth a Hamdden

Cadwch lygad allan am DVD newydd yr haf eleni sydd yn gaddo mewnwelediad swynol i gyfyngau llaith ceunentydd a dyfnentydd Gymru. Y nod yw i danlinellu pam fod y cynefinoed hyn mor bwysig ac archolladwy, a'r angen am hamdden gyfrifol.

Daeth y syniad o gynhyrchu'r fath DVD gellid ei roddi i ddarparwyr awyr agored yn yr ardal leol, gan seminar lwyddiannus a chynhaliwyd y llynedd, 'Ceunentydd Gogledd Cymru - Ailgymodi Cadwraeth a Hamdden' (tiny.cc/015zl). Mae Eryri-Bywiol wrthi yn cynhyrchu'r DVD gyda chyfraniad grŵp llywio sydd yn cynnwys cynrychiolwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Sustainable Use of Snowdonia Group (SUS) a Plantlife.

Yn aml, y ceunentydd yw cadarnle olaf cennau a mwsoglau sydd yn brin dros y byd i gyd. Gan fod nifer o lefydd wedi eu diogelu dan lywodraeth Special Areas of Conservation (SAC) Ewropeaidd, rhaid ymdrin â'r safleoedd hyn mewn modd sensitif sydd yn lleiafhau effaith dynol er mwyn parhad gweithgareddau hamddenol. Gall gosod droed yn ddifeddwl neu frwsio bag yn erbyn craig fod yn ddiwedd arni i gytref gyfan.

Cyflwynydd allweddol y DVD yw Dr Ray Woods, Swyddogydd Cadwraeth Plantlife. Gyda'i dull gyflwyno nwydwyllt a charismatig, mae'n anodd dychmygu na all fyd rhyfeddol y planhigion isaf hyn llwyddo i swyno. Disgrifiai ceunentydd Cymru gyda'u coedwigoedd hynafol fel "*ein gyfwerth ecolegol i'r fforest law*". Chawn hefyd flas ar y gwerth addysgol mae defnyddio ceunentydd yn golygu i ganolfannau awyr agored: "*Rhaid cofio pwysigrwydd amgylchedd y ceunentydd i switsio pobl ifanc ymlaen i faterion amgylcheddol*", dywed Lun Roberts, o'r SUS. Ariannir y prosiect gan CCGC a Chronfa Her Hamdden Dŵr i Gymru.



Dr Ray Woods yn edrych ar fyd anhygoel cennau

Achrediad Awyr Agored Newydd

Bathodyn Ansawdd Dysgu Tu Hwnt I'r Dosbarth a Chanllaw Cyrsiau Rhaff yr DU.

Mae darparwyr gweithgareddau awyr agored yn ymofyn achrediad allanol am nifer o resymau, boed i fodloni gofynion cyfreithiol, ateb anghenion arbenigol cleientiaid neu i gael cymorth marchnata a hyrwyddiad.

Ers 1996, mae yn hanfodol i ddarparwyr ogofâu, dringo, cerdded a gweithgareddau dŵr (ag eithriad sgïo dŵr) i bobl dan 18 oed basio arolwg statudol gan yr Adventure Activities Licensing Service (AALS) dan awdurdod Gweithredwr Iechyd a Diogelwch (GID).

Cyflwynid cynllun newydd achrediad diogelwch anstatudol dan yr enw Adventuremark (tiny.cc/UvXjc) ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn gofyn cymeradwyed AALS fel beicio mynydd, cyrsiau rhaff a waliau ddringo ayyb. Dyfeisiwyd y cynllun wedi cais gan y llywodraeth i Bwyllgor Adventure Activity Industries Advisory Committee (AAIAC).

Bydd Adventuremark yn berthnasol i holl weithgareddau antur ar gyfer pob oedran yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Dengys yr Adventuremark i gwsmeriaid y darparwr bod ei trefniadau ar gyfer reolaeth peryglon gweithgareddau antur wedi cael eu harolygu a'u canfod i fodloni'r safon genedlaethol.

Achrediad arall yw Bathodyn Ansawdd Dysgu Tu Hwnt I'r Dosbarth a aneliwyd at bobl ifanc 0-19 mlwydd oed. Mae'r llywodraeth wedi rhagarwain y gyfundrefn baddodynu anstatudol (tiny.cc/PKtbN) a bydd yn safon aur i ddarparwyr fel rhan o'r fenter.

Bydd yr achrediad cenedlaethol hwn yn cyfuno dwy elfen hanfodol o ddarparu - dysgu a diogelwch, ac AAIAC yw corff dyfarnu'r sector gweithgareddau antur. Dylid hyn ei wneud yn rhwydd i ysgolion gynllunio ymweliadau gan y gallent ddefnyddio wasanaeth darparwr heb orfod gwneud gwiriadau pellach.

Rhaid i ddarparwyr sydd ag Adventuremark neu drwydded AALS yn barod ac eisiau Bathodyn Ansawdd Dysgu Tu Hwnt I'r Dosbarth hefyd, gael arolygiad ychwanegol yn y meysydd gweithrediad nad ydynt eisoes wedi cael eu hasesu ynddynt. Apwyntiwyd Adventure Activity Associates Ltd gan AAIAC i fod yn gyfrifol am reoli'r broses achrediad ar gyfer y ddau ddyfarniad.

Yn dilyn cyflwyniad y Safon Cyrsiau Rhaff Ewropeaidd ym mis Mawrth 2008, mae dogfen sydd yn cynnig arweiniad i weithredwyr, adeiladwyr a hyfforddwyr ayyb. Sydd yn ymglymedig â chyrsiau rhaff, nawr ar gael gan AAIAC.

Pob ffotograff di-glod © Ray Wood

PARTNERIAID CYFRANNOL

Mae Antur yn brosiect cyd-gyfathrebu rhwng Eryri-bywiol, cefn Gwlad Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri. os yr hoffai eich mudiad chi'r gyfle i gyfrannu at rhifynnau Antur yn y dyfodol, cystylltwch gyda ni drwy e-bost: antur@snowdonia-active.com

Snowdonia-Active
Eryri-Bywiol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

AMGYLCHEDD
Mwynhau'r cefn gwlad

Dychweliad yr Afanc

Er y bu yn frodorol i Gymru unwaith, heliwyd yr afanc i ddifodiant yn ystod y canol oesoedd am ei gig, ei chroen a'i chwarennau arogl. Gall yr adroddiad ar ddod sydd yn astudio dichonoldeb ail-gyflwyno'r Afanc Ewropeaidd (*Castor Fiber*) i gorstiroedd Cymru, fod yn gam bwysig at eu dychweliad. Dechreuodd yr Asesiad Menter Afanc Cymreig ym mis Ionawr 2008 gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Mae'r asesiad wedi cysidro'r holl ddalgylchoedd addas yng Nghymru, a bydd y pump orau yn dioddef astudiaethau pellach. yn ragweliadwy, gweithgareddau dynol a chodai'r unig broblemau disgwyliedig. Archwiliwyd opsiynau reolaeth, a chyfuno syniadau a materion yn dilyn ail-gyflwyniad yr afanc gan yr asesiad, gan ymgynghoriad eang.

© Scottish Beaver Trial

'Rhywogaeth allweddol' yw'r afanc, gan ei fod yn darparu'r cynefin sydd yn hanfodol ar gyfer nifer o fflora a ffawna. Trwy weithgareddau fel damio a chloddio ffosydd maent yn helpu i gynnal ecosystemau corstiroedd, gan atal erydiad a phroblemau gyda llif gwaddodiad. Hefyd, maent yn coedlannu coedwigoedd a chreu llanerchau ar lannau afonydd, gan gynyddu'r golau all gyrraedd y dŵr. Mae hyn yn annog planhigion i dyfu, cynyddu'r bwyd sydd ar gael ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ac felly'r bwyd sydd ar gael i bysgod.

Gall gweithgareddau'r afancod gael effaith niweidiol ar rai gweithgareddau dynol. Bydd ffermio yn debygol o ddioddef yr effaith fwyaf, gyda phosibilrwydd llifogydd dibwys a niwed i gnydau âr. Mae afancod yn cwympo coed byw penodol yn unig, ac nid ydynt yn difrodi strwythurau gwneud. Gan eu bod yn llysieuwyr, ni fyddent yn effeithio ar stoc pysgod.

Ond gweler Ashley Charlwood, o Canŵ Cymru, rhai problemau i hamdden badlo gydag ail-gyflwyniad yr afanc: "*Wedi trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Natur, hyderwn gall y ddau cyd-fyw yn gytûn. Yr afanc Gogledd Americanaidd sydd yn damio afonydd, mae'r rhywogaeth Ewropeaidd yn ymddwyn yn wahanol. Bydd hwn yn olygfa natur Gymreig arall i'w fwynhau.*"

Prydain yw un o'r ychydig wledydd Ewropeaidd sydd heb eto llwydo i ail-gyflwyno'r afanc. Yn fis Tachwedd y llynedd dechreuwyd neilltuaeth chwe mis i bedwar teulu o afancod o Norwy. Ceir eu rhyddhau wedi ei gyflawni yn Knapdale (canolbarth Argyll) fel rhan o Treial Afanc Yr Alban (www.scottishbeavers.org.uk). Hwn fydd ail-gyflwyniad cyntaf o famal brodorol i Brydain.

AMBIWLANS AWYR CYMRU

Hofrennydd Yr Ambiwlans Awyr Yn 'Achub Amser – Achub Bywydau'

Mae achub gan ddefnyddio hofrennydd yn Eryri yn gyfystyr â thwrw'r Sea King melyn Chwilio ac Achub yn dod i gymorth dringwyr a cherddwyr yn y mynyddoedd. Ond ers Gorffennaf 2003, mae Ambiwlans Awyr Cymru, hofrennydd coch yn seiliedig ym Maes Awyr Caernarfon, hefyd wedi chwarae rhan bwysig mewn darparu ymateb cyflym i weithgareddau hamdden pan maent weithiau yn mynd o chwith.

Gall yr Ambiwlans Awyr gludo peilot, dau barafeddyg a ddau glaf. Ymhle galluogai'r tir i'r peilot glanio, gellir gadael parafeddyg wrth fan y damwain er mwyn i'r claf gael triniaeth cyn mynd ymlaen i'r ysbyty. Mae triniaeth o fewn yr 'Awr Aur' yn rhoi cyfle rhagorach i'r claf gwella. Yn wahanol i'r Sea King, nid oes gan yr hofrennydd hwn medr winsio, felly gall y topograffi rhwystro'r hofrennydd rhag bod yn effeithiol mewn mannau.

Arwyddeiriau'r Ambiwlans Awyr yw 'Achub Amser, Achub Bywydau', a gall yr hofrennydd, Helimed 61, fod yn yr awyr o fewn bedwar munud o dderbyn y galwad argyfwng. Teithiai ar gyflymder o 140mya, sef dros ddwy filltir yr eiliad, a chyrhaeddai'r hofrennydd ei glaf mewn amser cyfartalog o12 munud.

Dywed Ian Binnington, Arweinydd Tîm Helimed 61: "*Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Timau Achub ar Fynydd, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a'r Tîm Chwilio ac Achub o Valley. Gofynnir hyn gwaith tîm effeithiol a chysylltiadau da gan yr holl asiantaethau ymglymedig.*" Ychwanegodd: "*Gall beicwyr fynydd bod yn broblem. Weithiau, wrth i ni fynd i'w cynorthwyo, does ganddynt ddim syniad ble y maent, heblaw eu bod ar drac yng nghanol coedwig benodol.*"

Mae oddeutu 40% o alwadau'r Ambiwlans Awyr i ddamweiniau traffig, a gall y criw awyr gweithio mewn nifer lu o amgylcheddau o fewn shifft. Eleni, mae cangen Royal Oak y siop adwerthu awyr agored Cotswold wedi noddi criw Helimed 61 gyda chotiau shell Rab o'r ansawdd orau.

Mae gan yr Ambiwlans Awyr ddau hofrennydd argyfwng arall, un yn Abertawe a'r llall ym Maes Awyr y Trallwng. Roedd ddechrau 2009 yn garreg filltir bwysig i'r elusen wrth iddi hedfan ar ei 10,000ed daith. Gallwch gael hyd i ragor o fanylion am Ambiwlans Awyr Cymru ar y gwefan (tiny.cc/Hkl12), ymhle gallwch wneud gyfraniad ariannol i gadw'r hofrenyddion yn hedfan.

Cofiwch mai'r cyngor os ddigwyddi ddamwain yn y mynyddoedd neu ar glogwynau mewndirol yw ffonio 999 a gofyn am yr heddlu. Bydd yr heddlu yna'n sicrhau'r ymateb priodol.

BETH SYDD YN ARBENNIG AM SDGA?

Mae Cymru yn llawn o safleoedd hardd ac arbennig - yn llythrennol. Mae ymron i drydedd o'i thir a'i dŵr dan ddynodiad 'arbennig' gan y DU, Ewrop neu dan ddeddf ryngwladol. Uwcholeuwyd pam ei fod yn bwysig i ddefnyddwyr hamdden fod yn ymwybodol o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDGA) a'r ymrwymiadau glymedig gan ddatblygiadau diweddaraf wrth garreg calch Craig y Forwyn, ger Llanddulas.

Beth yw SDGA?

Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gonglfaen o ymarfer cadwraeth yng Nghymru, ac mae yma dros 1000 ohonynt yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o gynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt.

Pwy sydd yn gyfrifol am eu dynodi a'u fonitro?

Gofynnir i Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), yr asiantaeth cadwraeth statudol, gweithredu polisïau ar ran llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae CCGC wedi gwneud arolwg systematig o'r cefn gwlad, cae wrth gae, i ganfod cynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion daearegol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol i fod yn rhan o'r rhwydwaith SDGA. Weithiau, ceir safleoedd SDGA sydd hefyd dan gynlluniau eraill (Ardaloedd Arbennig Cadwraeth, Ardal Warchod Arbennig ayyb) sydd yn eu nodi fel rhai o esiamplau orau o etifeddiaeth naturiol yng Nghymru, y DU, ac Ewrop.

Sut rheolwyd safleoedd SDGA?

Ceir y rhan helaeth o safleoedd SDGA ar dir preifat. Mae'r CCGC yn anfon gosodiad i'r perchennog yn amlinellu cynllun reolaeth addas er mwn diogelu a gwella nodweddion blaenorol y safle. Gellir gwneud hyn drwy lunio cytundeb cyfreithlon rhwng y tirfeddiannwr a'r Cynulliad Cymraeg i reoli'r tir mewn modd arbennig yn gyfnewid am daliad. Rhaid hefyd rhoi gwybod i'r CCGC ynghylch unrhyw Weithrediadau Debygol o Niweidio neu Aflonyddu (GDNA) gall effeithio ar y SDGA. Rhestrir y rhain yn y cynllun reoli, a gall y rhestr gynnwys aredig, sychu tir neu ddefnydd gan drydydd barti. Er enghraifft, gall dringo ar graig SDGA sydd yn bwysig i ystlumod a fflora fod yn niweidiol.

A yw'r amodau hyn yn gadarn?

Nid yw'r GDNAau yn set o amodau na gwaharddiadau cadarn, ac yn aml rhoddir caniatâd i'r gweithgaredd os nad yw ar ran o'r safle na chai ei niweidio, neu os gallent eu haddasu wedi ystyriaethau tymhorol. Enghraifft dda yw peidio â dringo ar glogwynau penodol yn ystod y tymor nythu (fel ar nifer o safleoedd SDGA fel Ynys Lawd).

Sut mae cael caniatâd?

Rhaid gwneud cais i CCGC dan Sector 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw hyn os yw defnyddwyr hamddenol yn gwneud unrhyw GNDau sydd yn rhestredig yn yr hysbysiad SDGA. Yn arferol, mae CCGC yn fodlon caniatáu, trwy'r tirfeddiannwr, i lefelau defnydd presennol.

Beth yw canlyniad torri amodau SDGA?

Mae cosbau yn gysylltiedig â thorri deddfwriaeth SDGA. Gall tirfeddiannwr sydd yn cynnal, neu yn caniatáu GDNA heb hysbysu'r CCGC yn ysgrifenedig wynebu dirwy hyd at £20,000. Gall trydydd parti hefyd fod yn agored i ddirwy o'r fath os mae ef neu hi yn niweidio nodweddion arbennig y safle neu yn aflonyddu ar unrhyw anifail a nodir o ddiddordeb arbennig, yn fwriadol neu yn fyrbwyll. Nid yw hawliau tramwy presennol yn cael eu heffeithio gan hysbysiad.

Sut gallaf gael Gwybodaeth SDGA?

Bydd CCGC yn lansio Map Tirluniau a Safleoedd Gwarchodedig ar eu gwefan tua diwedd mis Ebrill, gyda manylion pellach na sydd yn bresennol (datganiadau rheoli safleoedd, GDNAau). Gweler tiny.cc/myhuU.



Gweledigaeth Awyr Agored

Mae gwaith ar y cam gyntaf o ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer sector awyr agored Gogledd Cymru wedi dechrau. Yr amcan yw darparu cynllun cydweithiol i siapio'r farchnad ar dwf, ac i ffurfio'r sail i flaenoriaethau ariannu dyfodol.

Mae'r sector awyr agored eisoes wedi profi ei gyfraniad gwerthfawr i economi Cymru, yn arbennig yn ardaloedd y Gogledd-Orllewin. Gyda hyn dan sylw, mae Fforwm Economaidd Gogledd Gymru, trwy Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, wedi comisiynu Planning Solutions Consulting (PSCL) i gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer 2009-14.

Bydd Eryri-Bywiol yn gweithio'n agos gyda PSCL, gyda'r amcan o adeiladu ar gydweithwyr a phartneriaethau sydd yn bodoli yn yr ardal. Camau cyntaf y prosiect yw gwellhau'r ddealltwriaeth o waith yn y sector awyr agored. Golygai hyn ymgynghoriadau gyda darparwyr gweithgareddau yn ogystal â phobl a sefydliadau ynghlwm â'r sector awyr agored yn y sectorau canlynol: twristiaeth, iechyd, addysg datblyged economaidd, hyfforddiant, cadwraeth a hamdden.

Y gobaith yw bod y gwaith hwn yn cynnig darlun eglur o'r sector gan wneud gwaith y sawl sydd yn rheoli datblygedd y sector yn fwy effeithiol. Unwaith ceir darlun clir, bydd yn rhwydd adnabod ba feysydd o fewn y sector sydd angen cynhaliaeth a gwell cydlyniaeth.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd PSCL ac Eryri-Bywiol yn cysylltu â deiliaid diddordeb allweddol i ganfod eu barnau. I fynychu diddordeb, e-bostiwch rachael@snowdonia-active.com

TWRISTIAETH
Yr economi bywiol

Twristiaeth Werdd

Mae pamffled sydd yn anelu i gynorthwyo ymwelwyr i leihau effaith eu hymweliad i Eryri nawr ar gael ar gyfer sefydliadau a busnesau i ychwanegu at eu gwefannau. Mae'r pamffled a chynhyrchwyd yn wreiddiol ar gyfer Twristiaeth Gogledd Cymru, a fydd yn cael ei gynnwys mewn 26,000 ffolder yn hybu atyniadau'r ardal i'w ddosbarthu i westai ayyb, yn cynghori ar sut i fod yn 'deithiwr cynhaliol', fel lleihau defnydd ceir yn ystod eu harhosiad.

Mae Prosiect Gwerdd Eryri (tiny.cc/BSy1b) wedi cynhyrchu pamffled gydag arian gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chronfa Arbrofi Eryri.

Dywed Swyddog y Prosiect, Emma Edwards-Jones: "*Hoffwn ni weld y pamffled yn cael ei ddefnyddio mor eang â phosibl, gan ei fod yn ffordd dda o gael darparwyr gweithgareddau, er enghraifft, i hybu'r neges bwysig o edrych ar ôl y Parc i genedlaethau dyfodol allu ei fwynhau.*" Gallwch gael gopi pdf drwy yrru e-bost i tourism@snowdoniasociety.org.uk.

Nawr yn ei drydedd flwyddyn, mae dyddiad cau Gwobrau Twristiaeth Werdd 2009 Cymdeithas Eryri yn agosáu. Maent yn chwilio am fusnesau twristiaeth o fewn ac yn agos at y Parc i arddangos eu credadwyaeth werdd ac i gael cyfle i ennill peth o'r wobr ariannol sydd yn gyfanswm o £2000 yn ogystal ag elwa o'r cyhoeddusrwydd.

Y llynedd, bu Trigonos, lleoliad preswyl ac addysgol yn Nantlle, ennill gwobr y Busnes Twristiaeth Gynaliadwy Orau (gwobr £500) a'r Wobr Garbon Isel. I gymryd rhan, lawrlwythwch a chyflawnwch y ffurflen gais (tiny.cc/BS y1b). Neges y Gymdeithas yw na allwch ennill os na cheisiwch!

Yr Union Beth?

Mae grŵp o hyfforwddwyr â Thystysgrifau Hyfforddwr Mynydda (THM) wedi sefydlu gwefan cymunedol (themic.org.uk) er mwyn hyrwyddo hyfforddiant gymwys a phrofiadol ym mhob tymor. Y gobaith yw ei fod yn galluogi'r cyhoedd i adnabod hyfforddwyr gyda'r cymwysterau priodol yn rhwydd. Yn ôl arfer cyffredinol, dylid hyfforddwyr ddringo sydd am weithio yn ystod y gaeaf cael THM o leiaf, ac yn ystod yr haf dylid gael Gwobr Hyfforddwr Mynydd (GHM) ar gyfer dringfeydd aml-ddringen.

Dywed cynrychiolydd y Cymuned Hyfforddwyr Mynydda *"Catalydd blaenorol sefydlu'r trefniadaeth hwn oedd defnydd dryslyd o logo gyfarwydd y Cymdeithas Hyfforddwyr Mynydda (CHM) gyda brand ymbarèl ar gyfer hyfforddwyr mynydda. Roedd defnydd y logo hwn wrth hysbysu cyrsiau mynydda gaeaf yn awgrymu cymhwyster, ond mewn gwirionedd, roedd nifer o unigolion yn dangos diffyg cymhwyster."*

MIC mountain instructors community

Nododd Rob Johnson, ysgrifennydd yr CHM bod yn *"rhaid i holl aelodau'r CHM barchu ein cod ymddygiad sefydledig, ac mae gan bob aelod lawn GHM neu'r gwobr uwch, THM."*

Un agwedd o'r gwefan gwerth nodi yw'r ffaith ei fod mewn tair iaith! Cadwch lygad allan am logo newydd y Cymuned Hyfforddwyr Mynydda.

100 MLWYDD O ARWEINLYFRAU

Sefydlwyd traddodiad gan arweinlyfr Lliwedd y Climbers' Club yn 1909

Mae cymharu'r arweinlyfr newydd i Ddyffryn Peris gan y Climbers' Club (CC) gyda'r arweinlyfr boced gyntaf a chynhyrchid can mlwydd yn ôl, yn ymarfer diddorol sydd yn amlygu cymaint am y newid ym moesau cymdeithasol â'r newid sydd wedi digwydd yn y sbort ers hynny.

Er yr ysgrifennid arweinlyfr 1909 y CC, *The Climbs on Lliwedd*, gan J.M. Archer Thomson ac A.W Andrews er mwyn "*hysbysu i'r newydd-ddyfodiad beth allai disgwyl cyn dechrau'r ddringfa*" ac i "*osgoi yn ein gwlad ein hunain y dilyw trychinebus*" y gwelid tramor, nid yw'r llyfr yn graddio dringfeydd. Yn hytrach, ceir crynodeb fer gyda disgrifiad y ddringfa - nid prin ei geiriau yw'r llyfr hwn.

Esboniai'r rhagair bod: "*Amcangyfrifo anhawster ymysg dringwyr yn newid yn fawr gyda chonffyrmasiwn ffisegol yn yr un modd ac mae eu gallu i fedryddu perygl yn newid yn ôl eu profiad ffisegol. Mae dosbarthiad boddhaol felly yn anymarferol, ac mae ceisio ei wneud yn gamarweiniol. Mae'r ffaith i'r fath restrau annog dringo cystadleuol yn rheswm digonol dros eu hepgor.*" Ers ei flynyddoedd genychol, mae dringo wedi ceisio ysgaru ei hun rhag ein hysfa gystadleuol naturiol.

Yr hyn sydd wedi dyfod yn fwyfwy cystadleuol dros amser yw'r farchnad ar gyfer arweinlyfrau cludadwy, ynghyd â'r diddordeb mewn hamdden awyr agored. Nid maes y CC yn unig yw cynhyrchu arweinlyfrau yng Nghymru, bellach. Rockfax oedd y cystadleuydd gyntaf o ddifrif i herio uchafiaeth y CC yn y maes, gan gymryd mantais lawn o dechnoleg cyhoeddi bwrdd gwaith i werthu canllawiau topo yn 1990. Ers hynny maent wedi cynhyrchu 28 o ganllawiau ledled Ewrop.

Gall Gogledd Gymru nawr ymfalchio yn nhalent gartref ei hun ym maes y 'defnyddiwr awyr agored', Pesda Press a Ground Up. Dechreuodd Pesda Press drwy arbennigo ym maes caiacio, ac ennillodd llyfr gyntaf Ground Up yn 2007, *North Wales Rock*, lawer clod. Nododd Simon Panton, cyfarwyddwr Ground Up: "*Does dim amheuaeth fod canllaw newydd o ansawdd dda yn adfywio diddordeb mewn ardal, gan ddennu ragor o ymwelwyr iddo.*"

I unrhyw un sydd am fentro ar glogwynau Lliwedd mewn dathliad o ganmlwyddiant arweinlyfrau poced y CC, gwell adael y gair olaf i'r rhyddiaith Edwardaidd a cheir rhwng cloriau'r llyfr a ddechreuodd y cwbl: "*Gall y gwir fynyddwr gorfoleddu yn ei amgylchedd o greigiau cerflynnaidd ac anadlu dylanwad golygfa prin, hardd.*"

Gwylio Adar Ynys Lawd

Dringwyr yn helpu ymwelwyr i wylio'r olygfa ar y forglogwynau

Mae hyfforddwyr ddringo Plas y Brenin wedi bod yn gweithio gyda'r RSPB i osod camerâu wrth Ynys Lawd, Ynys Môn wrth baratoi ar gyfer olygfa flynyddol y nythu ar y forglogwynnau.

Gosodwyd 140 metr o gebl yn ofalus o ymyl y clogwyn i ddau gamera: un i ffilmio'r silff fwdlyd ble nythai aderyn y pâl mewn tyrchfeydd, a'r llall wrth safle nythu'r frân goesgoch, mewn ogof fach prin uwchlaw'r tonnau. Bydd y camerâu yn 'Mousetrap Zawn' yn gadael i ymwelwyr weld agosluniau o'r cytrefi adar o Ganolfan Gwybodaeth y RSPB yn Nhŵr Ellin a fydd yn agor y Pasg yma.

Gellid gweithredu camera'r palod o fewn y ganolfan, gyda gorchmynion chwyddo, tremio a gogwyddo - ac mae ganddo hyd yn oed fraich-sychu'r-sgrîn ar gyfer y lens! Gosodwyd y camerâu am y tro cyntaf y llynedd, ac er i'r camera ar y brain coesgoch methu â gweithio, datryswyd y broblem at eleni. Mae Ynys Lawd yn warchodfa natur, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac yn Ardal o Warchodaeth Arbennig Ewropeaidd er mwyn diogelu'r brain coesgoch. 450 pâr nythu yn unig sydd yn y DU.

Adnabu'r glogwynau'n dda i ddringwyr, fel rhan o'r clogwyn ymestynnol o'r enw Gogarth, un o safleoedd pwysicach Prydain i ddringo traddodiadol. Nid yw ceblau'r camerâu yn effeithio ar y llwybrau dringo.

Mae cytundeb mynediad gwirfoddol ymysg dringwyr i beidio â dringo ar glogwynau penodol yn ystod y tymor nythu sydd yn cynnwys Mousetrap Zawn a'r Waliau Coch cyfagos.

Dywed Warden y warchodfa, Dave Bateson "*Mae'r cytundeb yn uchel ei barch, ac mae'n beth dda gweld dringwyr a'r RSPB yn cyd-weithio ar brosiect fel Ynys Lawd.*"



Archwilio Mynediad Dŵr Mewndirol

Ymholiad Pwyllgor Deiseb

Dylid adroddiad terfynol ymholiad byr Pwyllgor Deiseb Senedd Gymru yn archwilio i fater mynediad i ac ar dŵr mewndirol bod yn barod erbyn diwedd fis Mawrth.

Enillodd y ddeiseb bron i 10,000 o lofnodion (y nifer fwyaf erioed) yn galw am ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n sicrhau hawliau mynediad i ac ar ddŵr mewndirol. Cyflwynwyd y ddeiseb i Senedd Canŵ Gymru (a elwid yn Bwyllgor Canŵ Cymru ar y pryd) yn fis Ebrill 2008. Mae'r ddeiseb yn dyfynnu Deddf Diwygiad Tir (Yr Alban) 2003 fel model o ymarfer dda, ac yn dadlau bod hawliau sydd yn bodloni yn aneglur ac yn rhwystrol.

Yn sgil hyn, a phapur briffio a chomisiynwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan Ganŵ Cymru, penderfynodd y Pwyllgor Deiseb i gynnal yr archwiliad. Cyn gwneud argymhellion, bydd yr ymholiad yn seiliedig ar archwilio esiamplau o fynediad cyhoeddus i ac ar dŵr mewndirol sydd yn bodoli, ac egluro'r materion allweddol. Bydd hefyd yn asesu effeithiolrwydd y dull statudol yn Yr Alban i sicrhau hawliau mynediad, ynghyd â chyfrifoldebau cyhoeddus dros hamdden nas gyrrwyd mewn modd mecanyddol.

Er na all y Pwyllgor Deiseb gwneud deddfwriaeth ei hun, gallai awgrymu bod angen i'r Pwyllgor Archwiliad cynnal ymholiad lawn i'r fater. Gall hyn arwain at alwad am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gan Westminster, gan adael i Gymru cadw mynediad cyhoeddus cyfrifol i ddŵr mewndirol.

Dywed Ashley Charlwood, Swyddog Mynediad Canŵ Cymru, *"Mae'r pedwar parti gwleidyddol ar y Pwyllgor Deiseb yn adnabod mynediad i dŵr mewndirol fel mater cymhleth a chenedlaethol. Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ddaru alluogi i ni ddechrau symud y mater hwn yn ei flaen."*

BE SY' 'MLAEN

Dyma nhw rai dyddiadau ar gyfer y dyddiadur gwanwyn/haf '09:

Gŵyl Gerdded Ynys Môn
23ed o Fai – 7ed o Fehefin (tiny.cc/lojcl)

Cyfarfod Ddringo Teuluol y BMC
30ed o Fai, am ragor o fanylion, e-bostiwch bmccymru@live.co.uk

Ras Cader Idris
30ed o Fai, 2.00 yh, cader-race.co.uk

Cyfarfod Agored BMC Cymru
9ed o Fehefin, Gwesty Castell Deganwy, 9.00 yh

Ras/Taith Canŵ Dringfa Conwy
27ed o Fehefin, cwrs15km i fyny'r afon o Deganwy Narrows (tiny.cc/316aa)

Wythnos Gerdded Conwy
1af – 8ed o Gorffennaf, rhaid archebu ymlaen llaw (tiny.ccuK8pq)

Ras Rhyngwladol yr Wyddfa
18ed o Orffennaf, yn gychwyn am 2.00 yh, Llanberis

YN FYR

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyhoeddi fersiwn ymgynghoriad Cynllun Reoli Parc Cenedlaethol Eryri: "*Dogfen ar gyfer bawb sydd yn byw, gweithio, ymweld a mwynhau Eryri ydyw*". Hoffai'r awdurdod glywed eich barn chi am y dogfen cyn 5.00yh 11ed o Fai. Ceir rhagor o fanylion a ffurflenni ymateb ynghyd â nodiadau canllawiol yma: tiny.cc/0L2US.

DIWYLLIANT A THREFTADAETH
Naws am le

Cystadleuaeth Ffotograffi'r Parc

Rhannai'r sawl sydd yn mwynhau gweithgareddau hamdden awyr agored, hoffter o gofnodi'r digwyddiad drwy dynnu llun, boed yn gyfansoddiad gofalus neu'n 'pwynt-a-chlic'.

Felly os oes gennych chi ffotograffau ysbrydol yr ydych yn falch ohonynt, pam na chymerwch ran yng nghystadleuaeth ffotograffau Parc Cenedlaethol Eryri i godi ymwybyddiaeth o etifeddiaeth ddiwylliannol y Parc. Cymerai'r gystadleuaeth eich dehongliad chi ar y thema fel testun, rhaid cyflwyno'r gwaith erbyn Mai 31 '09.

Gwahoddir ceisiadau mewn un neu fwy o'r categorïau canlynol - Pobl, Digwyddiadau, Tirlun a Gwnaed Gan Ddyn, a chaent eu dyfarnu yn ôl y gwahanol oedrannau hyn: Oedolion, 16-21oed a 6-15 oed. Bydd enillion y ddau gategori blaenorol yn derbyn taleb i brynu offer camera hyd at werth £200, a bydd y ieuengach yn derbyn taleb gwerth £50 gan Cambrian Photography ym Mae Colwyn. Yn ogystal â hyn, bydd un enillydd dros ben yn ennill lle ar gwrs ffotograffiaeth Awdurdod y Parc yn ei chanolfan astudio maes, Plas Tan y Bwlch.

Ceir yr enillion eu cyhoeddi a'u harddangos ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ardal Meirion 2009. Derbynnir lluniau a thynnwyd o fewn ffiniau'r Parc yn unig, a chaniateir i bob ceisiwr cyflwyno hyd at bedwar llun ym mhob categori. Tra cadwai'r Parc yr hawl i gadw copi o'r delweddau ar ffeil, ni wnânt eu defnyddio heb ganiatâd y perchennog.

Dywed y Parc: "*Mae etifeddiaeth ddiwylliannol yn cynnwys holl dystiolaeth o weithgaredd dynol ac ymglymiad a allai ei weld, ei ddeall a'i theimlo. Gall hyn fod yn olion diwydiannol, gweithgareddau fel eisteddfodau neu treialau cŵn defaid, tirluniau ayyb".* Ceir manylion pellach a ffurflen cystadlu yma tiny.cc/izwfD.

Defnydd Busnesau Twristiaeth o'r Gymraeg

Enillodd Crwydro Môn (tiny.cc/VHw1w), Menai Bridge, dwywaith yng Ngwobrau Twristiaeth Ynys Môn eleni. Enillodd y cwmni Gweithredwr Gweithgareddau/ Antur Orau am yr ail flwyddyn ddilynol, a hefyd, ynghyd â Neuadd Lwyd, Defnydd Cymraeg Mewn Busnes Twristiaeth (gwobr a noddwyd gan Fwrdd yr Iaith Cymraeg a Menter Iaith Môn).

Sylwodd y beirniaid bod Crwydro Môn yn dangos defnydd da o Gymraeg yn y busnes wrth lwyddo i ddarparu profiad gwyliau a Chymraeg cyflawn.

Mae Eurwen a Gillian Williams, sydd yn rhedeg y cwmni, yn siarad Cymraeg ac wedi byw ar yr Ynys am dros 25 mlwydd. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth gwyliau pwrpasol ar gyfer cerddwyr ar hyd Llwybr Arfordirol Ynys Môn, a nododd y beirniaid bod y pecynnau yn diwallu anghenion cwsmeriaid yn bersonol ac yn ddwyieithog.

Cynigir 13 o wahanol lwybrau gan Grwydro Môn, o 7 i 14 milltir o hyd, gyda'r wybodaeth gyfoes berthnasol, ac wedi eu dewis o'r llwybr arfordirol cyfan sydd yn ymestyn am 125 milltir. Ceir rhagor o fanylion am y Gwobrau 2009 a threfnwyd gan Gymdeithas Twristiaeth Ynys Môn yma: tiny.cc/Andcy.